

# Senedd Myfyrwyr

Hysbyswyd aelodau'r Senedd Myfyrwyr ar bryd cynhelir y cyfarfod nesaf:

**Dydd Mawrth 28 Ionawr 2020**

**Ystafell 4J, 4ydd Llawr Undeb y Myfyrwyr 6yh**

---

## Agenda

Cysylltwch â Thîm Llais Myfyrwyr ar 02920 781434 neu e-bostiwch [democracy@caerdydd.ac.uk](mailto:democracy@caerdydd.ac.uk) i drafod unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau sydd gennych, neu i gael rhagor o wybodaeth ar unrhyw un o'r eitemau ar yr agenda isod.

### **Adran I Eitemau Sylfaenol:**

- A. Ymddiheuriadau
- B. Cofnodion y cyfarfod blaenorol Tudalen 2

### **Adran II Eitemau a Gyflwynwyd:**

### **Adran III Unrhyw Fusnes Arall:**

- 1. Cynigion sy'n darfod Does dim

**Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 6yh ar Ddydd Mawrth 17  
Mawrth yn 4J, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Parc y Plas**

## ADRAN I

### B. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

## Cofnodion Senedd y Myfyrwyr Dydd Mawrth 10fed Rhagfur 2019, 4J am 6yh

### Yn bresennol

Ali Shahid, Ashly Alava Garcia, Caroline Pilat, Christopher Dunne, Flavie loos, Hannah Doe, Jackie Yip, Janet Williams, Joelle Tham, Josephine Tanner, Kavian Shirkoohi, Luke Doherty, Marshall Tisdale, Niamh Hinchcliffe, Rachel Beaney, Rebecca Fisher-Jackson, Ronan West, Syed Shah, Thomas Mahony-Kelross, Tomos Evans, a Zachary Edge.

### Adran I Eitemau Sylfaenol:

#### A. Ymddiheuriadau

Charlotte Mallinson, Jennifer Geminiani, Stephen Oldfield , Nyin Liew, Zoltan Sztranyovszky, a Uzair Ahmed

#### B. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd y cofnodion gyda dau ddiwygiad:

- JM - diwygiwyd i JW drwy'r holl ddogfen
- Tudalen 4, Mae angen mwy o feddwl a thrafodaeth y tu ôl i'r cynnig.

#### C. Diweddariad gan y Pwyllgor Craffu

Darparodd Josh Lewis, Cadeirydd y Gymdeithas Craffu, ddiweddariad i Senedd y Myfyrwyr gan nodi bod y pwyllgor yn hapus gyda datblygiad y swyddogion a'u bod wedi anfon cwestiynau i'r swyddogion hynny. Cofnodion ar gael ym mis Ionawr.

Nododd JP os yw myfyrwyr yn dymuno gofyn cwestiynau i swyddogion ar gyfer y Pwyllgor Craffu gallant e-bostio [democracy@caerdydd.ac.uk](mailto:democracy@caerdydd.ac.uk)

## Adran II Eitemau a Gyflwynwyd:

### A. Creu Wal Lennon yn yr Undeb

Siaradodd Michael Li dros y cynnig gan esbonio'r sefyllfa bresennol yn Hong Kong. Nododd ML y dylai'r Wal Lennon fod ar gyfer sawl achos. Nododd ML y byddai'r Wal Lennon yn cael ei leoli ger Starbucks ar yr 2il Lawr.

Siaradodd Tomos Evans yn erbyn y cynnig. Nododd yr angen i fyfyrwyr Hong Kong gael eu clywed. Ceir ymgysylltiad isel gyda myfyrwyr Tir Mawr Tsieina yn digwydd ar draws yr undeb. Esboniodd TE am y cyfryngau presennol o amgylch y sefyllfa. Nododd TE bryder am gynydd mewn diffyg ymgysylltiad gan y myfyrwyr hyn yn ogystal ag pe byddai cymryd rhan yn y weithgaredd hon yn gallu cael effaith ar y myfyrwyr hyn pan fyddant yn dychwelyd adref. Nodwyd pryder am fonitro Cantonese a Mandarin, rhywbeth na all yr undeb ei warantu.

Siaradodd Luke Doherty o blaid y cynnig. Gwnaeth nodyn o'r plattform a geiriau cas a sut gallai'r Wal Lennon greu cyswllt rhwng myfyrwyr. Dywedodd LD bod y Wal Lennon yn creu plattform i hyn.

Atebodd TE sylwadau L.D. Gofynnodd TE y cwestiwn beth fyddai myfyrwyr Tsieineaidd yn ei wneud gyda'r wybodaeth wedi iddynt adael Caerdydd. Esboniodd TE y rhwystrau o newid safbwyntiau'r myfyrwyr hyn. Dywedodd TE eu bod wedi cysylltu â myfyrwyr Tsieineaidd a oedd yn poeni am fodolaeth y wal.

Siaradodd LD o blaid y cynnig gan esbonio bod y plattform yn drafodaeth gadarnhaol a, ryddid barn.

Siaradodd Chris Dunne yn erbyn y cynnig. Esboniodd CD sut oeddynt yn bryderus yn enwedig o ran cymedroli. Creu gofod lle gall fyfyrwyr ysgrifennu beth bynnag y dymunant. Ni all yr undeb reoli beth gaiff ei gyflwyno mewn Cantonese neu Mandarin.

Cwestiwn: Gofynnodd JY os oedd Michael wedi siarad â Chymdeithasau Hong Kong a Chymdeithasau Tsieineaidd.

Ateb: Nododd ML bod y Gymdeithas Hong Kong yn cefnogi'r Wal Lennon, fodd bynnag nid yw wedi siarad â'r Gymdeithas Tsieineaidd.

Cwestiwn: Gofynnodd TE os caiff y cynnig ei basio, am ba mor hir fydd y wal i fyny?

Ateb: Nododd ML bod y wal ar gyfer sawl achos ond nododd y bydda'r wal i fyny am fis neu ddeufis.

Cwestiwn: JW Pe byddai'r wal yn mynd yn ei flaen, a fyddech chi'n hapus i fyfyrwyr ysgrifennu yn y Saesneg yn unig

Ateb: Cytunodd ML

Cwestiwn: Eglurodd JY y byddai yn y Gymraeg a gofynnodd beth fyddai'n digwydd i'r negeseuon sy'n cael eu hysgrifennu.

Ateb: Nodi y byddai hyn yn ddibynnol ar faint ohonynt sydd yno a pha amrywiaeth o sylwadau sydd yno. Bydd trafodaeth bellach yn cael ei rannu ar-lein i'w cadw nhw yn hytrach na chael eu hailgylchu.

*Trafodaeth Gyffredinol am y cynnig*

**Cwestiwn:** Gofynnodd RB i TE os mai'r bwriad oedd i Undeb y Myfyrwyr aros yn niwtral ar y pwnc.  
**Ateb:** Nododd TE mai'r syniad oedd i Undeb y Myfyrwyr barhau yn niwtral oherwydd natur y sefydliad ac yn hytrach, gofyn i'r Undeb ddarparu cefnogaeth ar gyfer cefnogaeth cymar-i-gymar. Esboniodd TE hefyd bryder o amgylch myfyrwyr ddim yn deall hanes yr amgylchedd wleidyddol, ddaearyddol o amgylch y mater.

**Cwestiwn:** Gofynnodd LD pe byddai wal yn helpu myfyrwyr i ddysgu ynglŷn â'r sefyllfa  
**Ateb:** Atebodd TE y gall hyn fod yn ganlyniad: fodd bynnag, mae risg gynhenid y sefyllfa yn gorbwysu'r cyfle.

**Cwestiwn:** Gofynnodd JP i'r cynigydd os mai bwriad y cynnig oedd gosod safiad gan yr Undeb neu os yw ar gyfer creu Wal Lennon.  
**Ateb:** Atebodd ML bod y cynnig nid yn unig ar gyfer creu y Wal Lennon.

**Cwestiwn:** Gofynnodd HD i TE pe byddent yn hapus gyda Wal Lennon yn bodoli sydd ddim yn benodol ar gyfer y mater hwn  
**Ateb:** Ni fynegodd TE unrhyw amheuan am fodolaeth o Wal Lennon  
 Esboniodd JY na fyddai'r undeb yn atal wal mynegiant ond bod cwestiynau a phroblemau ynghylch myfyrwyr yn camddefnyddio'r system.

Nododd RB y broblem bresennol ynghylch y protestiadau O Blaid dewis. Nododd RB bryder o amgylch niwtraliaeth Undeb y Myfyrwyr ar faterion fel hyn ac esboniodd y gall yr enghraifft hon roi cyfle i undeb y myfyrwyr fod yn fwy blaengar.

Cyfeiriodd LD i'r protestiadau O Blaid Dewis a rhyddid barn fel rhan o brofiad prifysgol. Cyfeiriodd LD at y platfform Cardiff Confessions a sut gellir ei ddefnyddio fel esiampl wael o sut i beidio mynegi barn ond gallai'r Wal Lennon wneud hynny.

Atgoffodd JP Seneddwr am y Cynigion Gweithredol.

Tynnodd CP sylw at y ffaith fod y cynnig yn cyfeirio at Wal Lennon ar gyfer y protestiadau yn Hong Kong ac nid yw'n awgrymu creu Wal Lennon ar gyfer unrhyw wrthdaro neu fudiadau gwleidyddol arall. Tynnodd CP sylw hefyd at y ffaith bod llinell olaf y cynnig wedi ei ysgrifennu mewn llythrennau breision a phan fod testun wedi ei ysgrifennu fel hyn ei fod yn ennyn drwg deimlad. Mynegodd CP hefyd sut bod 'rhyddid' yn wahanol i bob diwylliant a bod gwneud tybiaethau am y ffordd y mae pobl yn dehongli'r ymadrodd 'Rhyddid Barn' yn beryglus.

Gofynnodd TK i'r cadeirydd sut oedd cynigion gweithredol yn gweithio.  
 Rhoddodd JP esboniad.

### Cynigiodd TK ddiwygiad:

*“Yn hytrach na chreu Wal Lennon yn yr Undeb yn benodol mewn undod â Hong Kong a'r pump gorchymyn, i'r Undeb i greu wal Lennon fel man ffisegol dynodedig yn undeb y myfyrwyr ar gyfer unrhyw broblemau ac i ganiatáu'r arbrawf a gofod i barhau cyn belled na bod lles myfyrwyr yn cael ei effeithio.”*

Siaradodd TK dros y diwygiad gan nodi fod y gofod ffisegol yn arbrawf ar gyfer rhyddid barn.

**Cwestiwn:** Gofynnodd LD am eglurhad dros pam fyddai'r cynnig yn cael ei newid i adlewyrchu canlyniadau posibl o'r cynnig.

**Ateb** Nododd TK mai'r bwriad oedd cyffredinoli syniad craidd y cynnig, yn enwedig wrth gyfeirio tuag at y llythrennau breision o fewn y cynnig.

**Cwestiwn** Gofynnodd Kevin am ddiffiniad clir o beth mae “Ni chaiff lles neb ei effeithio” yn ei olygu.

**Ateb:** Cyfeiriodd TK at y cysyniad cyffredinol bod siaradwyr eraill wedi nodi wedi nodi pryder o gynyddu tensiwn. Tynnodd TK sylw at ymddiried mewn myfyrwyr ond bod y cymal yn gweithredu fel mecanwaith diogelwch i roi'r gorau i'r wal.

**Cwestiwn:** Gofynnodd AAG sut byddai'r diwygiad yn creu canlyniad gwahanol i'r cynnig gwreiddiol.

**Ateb** Tynnodd TK sylw at y ffaith bod ateb y cwestiwn blaenorol yn ateb y cwestiwn penodol hwn.

Gwrthododd TK y cyfle i gyfrifo'r diwygiad.

Siaradodd ML yn erbyn y diwygiad a nodi cymhelliant gwreiddiol y cynnig yw codi ymwybyddiaeth o chwyldro Hong Kong ond bod sefyllfaoedd eraill yn gallu cael eu trafod wrth godi ymwybyddiaeth am chwyldro Hong Kong.

Pleidleisiau o blaid: 9

Pleidleisiau yn Erbyn: 5

Ymataliad: 7

### Diwygiad yn pasio

### *Cynigiodd JT Gynnig Gweithdrefnol*

Cynigiodd JT y dylai'r Senedd ddeddfu Cynnig Gweithdrefnol 5: Bod y cyfarfod nesaf yn trafod y cynnig wedi ei ddiwygio

Cododd CD bryder na fyddai cymedroli yn gallu cefnogi'r wal 24 awr y diwrnod. Parhaodd Tom (Cynrychiolydd Myfyrwyr) a nododd bod Cardiff Confessions yn gyfrinachol lle byddai Wal Lennon yn golygu y byddai'n rhaid i fyfyrwyr gerdded yn llythrennol tuag at y wal er mwyn postio. Nododd Tom yr elfen gadarnhaol o amgylch y wal o ganlyniad i'r hinsawdd wleidyddol bresennol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Pleidleisiau o blaid y cynnig gweithdrefnol: 14

### *Cynnig gweithdrefnol yn methu*

Gofynnodd y cadeirydd i'r Senedd bleidleisio.

## B. Gwneud cardiau adnabod myfyrwyr yn rhad ac am ddim neu yn rhatach

Siaradodd Rebecca Rabson RR dros y cynnig; gan nodi eu bod yn hwyr yn dychwelyd llyfrau a nid oedd yn gallu dychwelyd llyfrau i'r llyfrgell oherwydd nad oedd ganddynt Gerdyn Myfyriwr ac nid oeddynt yn gallu fforddio i gael cerdyn arall. Tynnodd RR sylw at y ffaith bod rhai myfyrwyr angen defnyddio eu cardiau i gael i mewn ddarlithoedd. Dadleuodd RR bod y nifer o fyfyrwyr a fyddai yn colli eu cardiau yn is na'r nifer o'r rheiny a fyddai yn cymryd mantais o'r sefyllfa.

Dim siaradwr yn erbyn y cynnig

Cwestiwn: CD y gost yn uchel i fyfyrwyr yn enwedig wrth ystyried cyllid wythnosol o £20. Gofynnodd CD os oedd nodi pris neu gerdyn argyfwng ar gael pan fo angen yn gallu cael ei ychwanegu at y cynnig fel diwygiad pe byddai RR yn cytuno.

Ateb Cadarnhaodd RR y parodrwydd i ddiwygio

### *Cynigiodd HD a KK ddiwygiad*

*“Pan fo myfyriwr angen cerdyn myfyriwr newydd am y tro cyntaf wedi iddynt gael ei cerdyn arferol, byddant yn gallu cael hyn am ddim. Os ydynt angen un newydd wedi hyn yn y dyfodol dylent dalu y gost arferol (£10) mewn argyfwng darperir cerdyn myfyriwr a'i dalu yn ôl yn hwyrach am y gost arferol (£10).”*

*Diwygiad yn cael ei dderbyn gan y cynigydd*

### Cynigiodd LD ddiwygiad

Cynigiodd LD ddiwygiad pellach i ychwanegu bod unrhyw gerdyn argyfwng yn cael ei ddarparu yn rhad ac ddim.

Gofynnodd JP os oedd yna ddiffiniad o'r hyn sy'n cael ei ystyried fel 'argyfwng'.

Ymatebodd LD y byddai'n argyfwng pe byddai myfyriwr mewn argyfwng ariannol h.y mae myfyriwr y tu hwnt i'w gorddrafft ac fod diffyg cerdyn myfyriwr yn effeithio ar eu gallu i astudio.

Gwrthododd HD y diwygiad i'r cynnig

Cwestiwn      Gofynnodd JT sut gellir profi 'argyfwng'?  
 Ateb            Nododd LD y byddai myfyriwr mewn argyfwng economaidd pan yn y  
 Brifysgol.

Cwestiwn      Gofynnodd AAG a fyddai'r broses yr un fath ag amgylchiadau esgusodol  
 Ateb            Atebodd LD y gall myfyriwr brofi eu bod yn profi anawsterau ariannol fel  
 sy'n digwydd gyda'r broses cyllid caledi a byddai'r penderfyniad pe byddai'r  
 myfyriwr yn cael y cerdyn argyfwng yn cael ei wneud at ddisgresiwn y  
 Brifysgol.

Cwestiwn      Gofynnodd CD sut byddai'r cerdyn argyfwng rhad ac am ddim yn cael ei  
 reoli e.e am ba mor hir caiff myfyriwr gael cerdyn argyfwng.  
 Ateb            Atebodd LD ei fod yn ddiibynnol ar beth yw'r argyfwng fesul achos.

Daeth LD i'r casgliad y byddai hyn yn cefnogi'r rheiny mewn straen ariannol. Y gyriant y to ôl i'r diwygiad yw i fod mor gynhwysol â phosib i boblogaeth y myfyriwr.

Atebodd HD gan esbonio pam eu bod wedi gwrthod y diwygiad i'r diwygiad. Mae 'Mewn achos o argyfwng' yn wahanol i bob person. Nododd HD mai dyma'r cyfle i fyfyrwr gael eu cerdyn pan fo angen.

Pleidleisiau o blaid: 3

Pleidleisiau yn Erbyn: 13

Ymataliad: 5



### *Diwygiad yn methu*

Gofynnodd JT pwy fyddai'n gwybod faint o gardiau y byddai myfyriwr wedi ei dderbyn.

Atebodd JP y byddai gan y Brifysgol gofnod

Atgoffodd y Cadeirydd Seneddwr nad oes gan y Senedd Myfyrwr y gallu i gyllido y polisi hwn ac yn hytrach mae'r cynnig yn mandadu swyddogion i lobio'r brifysgol amdano.

Gofynnodd Tom beth y mae cost y cardiau yn mynd tuag ato ac os yw'r cardiau yn mynd i fod am ddim pa gyllid fydd yn talu'r gwahaniaeth.

Nododd RB sefyllfa ariannol y Brifysgol ac eu bod mewn diffyg

Darparodd TK y farn bod y cynnig yn ymwneud ag ymgais i greu newid dim bwys os yw'n bosib neu ddim.

### **Adran III Unrhyw Fusnes Arall:**

#### A. Cynigion sy'n darfod

- i) Addewid Amser i Newid
- ii) Atal Sbarduno Casineb
- iii) Rhoi Llwyfan Ganolog i Ryddid ac Ymgyrchoedd

#### B. Etholiad Cyffredinol

Atgoffwyd seneddwr i bleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol ar Ddydd Iau 12fed Rhagfur 2019.

#### C. Trafodaeth dda

Nododd TK bod y ddadl a'r drafodaeth y cyfarfod wedi bod yn gadarnhaol ac i'w ganmol.

*Diwedd y cofnodion o 10/12/19*

**Adran II Eitemau a gyflwynwyd ar gyfer 28/01/20:**

A) Newid Ffioedd Aelodaeth Cymdeithasau a Chlybiau Chwaraeon

Beth yw'r broblem?

Mae sawl Cymdeithas a Chlwb Chwaraeon yn codi amrywiaeth o ffioedd i fyfyrwyr, megis aelodaeth hanner blwyddyn. Fodd bynnag, mae rhai cymdeithasau yn codi ffioedd ar aelodau newydd, neu godi ffi ar fyfyrwyr yn ddibynnol ar ba flwyddyn y maent yn astudio ynddi. Yn amlwg, mae hyn yn annheg, a dylid ei newid.

Beth yw eich syniad?

Ni ddylid caniatáu i Gymdeithasau a Chlybiau Chwaraeon godi ffioedd aelodaeth yn ddibynnol ar eich blwyddyn astudio, a dylai'r cymdeithasau a chlybiau hynny sy'n dymuno codi arian ar aelodau newydd ar gyfradd wahanol i aelodau sy'n dychwelyd, ddangos bod yr aelodau hyn yn derbyn baich ariannol ychwanegol gan y gymdeithas, megis hyfforddiant ychwanegol neu gostau offer, cyn cael caniatâd neu i barhau codi'r ffioedd hyn. Dylid rhoi mandad i'r IL Cymdeithasau a Chwaraeon i gyflwyno'r newidiadau hyn erbyn Medi 2020.

Submitted by: Nick Fox

B) Ymrwymiad Swyddogol gan Brifysgol Caerdydd ac UMPC i Ryddid Barn.

Beth yw'r broblem?

Mae sawl enghraifft wedi bod lle cafodd rhyddid barn a mynegiant eu gwrthod a'u hatal. Mae diwylliant o anoddefgarwch tuag at farn a meddyliaid penodol wedi ennill ei blwyf; tra bod amrywiaeth barn wedi methu a chael ei annog. Mae myfyrwyr yn haeddu gofod cynhwysol a goddefol lle gallant feddwl yn annibynnol.

Beth yw eich syniad?

Bod PC ac UMPC yn ymrwmo at Ryddid Barn drwy ddisodli polisiau dim llwyfannu; cael gwared â'r holl sensro ar bapurau newydd; a chael safbwynt diofyn o niwtraliaeth ar faterion gwleidyddol. PC ac UMPC yn hyrwyddo Rhyddid Barn; ac ymrwmo at ddarparu digwyddiadau cyhoeddus sy'n apelio tuag at fyfyrwyr Adain Chwith a Dde. Dylai nifer gytbwys o ddarlithoedd cyhoeddus a dadleuon o safbwynt y Dde a'r Chwith gael eu cynnwys drwy gydol y flwyddyn academaidd gall y rhain gael eu dilyn gan weithdai.

Submitted by: Christopher Dunne

C) Cefnogaeth a chynghor i famau beichiog.

Beth yw'r broblem?

Gall ferched yn y Brifysgol ganfod eu hastudiaethau yn cael eu tarfu gan feichiogrwydd anfwriadol; ac yn teimlo fel mai dim ond un opsiwn sydd ar gael i ddatrys y mater. Mae merched sy'n dewis cadw eu beichiogrwydd yn aml yn anwybodus ac nid ydynt yn cael digon o gefnogaeth. Mae erthylu weithiau yn cael ei gyflwyno fel rhywbeth anochel i'r merched hynny sydd ddim yn ymwybodol o sut y byddant yn ymdopi yn emosiynol ac yn ymarferol gyda beichiogrwydd a bod yn fam gyfochr â'u hastudiaethau. Mae merched yn derbyn digon o wybodaeth ar erthylu; ond nid ydynt wastad yn derbyn digon o wybodaeth am y dewisiadau eraill.

Beth yw eich syniad?

Tra bod merched yn gwbl rydd i ddewis erthylu, maent hefyd yn rhydd i barhau a'u beichiogrwydd. Felly, cael gwybodaeth a chysylltiadau ar dudalen Cefnogaeth Beichiogrwydd y Brifysgol yn cyfeirio at sefydliadau o blaid bywyd sy'n cynnig cwnsela a chefnogaeth ymarferol i fenywod mewn beichiogrwydd anfwriadol. Dylai cefnogaeth ar ôl erthylu hefyd fod ar gael. Dylai Prifysgol Caerdydd ac UMPC weithredu i gael gwared a'r stigma sydd ynghlwm â beichiogrwydd a bod yn fam yn y Brifysgol.

Submitted by: Luke Doherty

D) Amddiffyn Rhyddid Crefyddol

Beth yw'r broblem?

Mae niferoedd mawr o fyfyrwyr Cristnogol a'u cymdeithas sydd wedi eu hymlynu yn cael eu gosod o dan straen moesegol sylweddol ar ôl penderfyniadau a wnaethpwyd gan Gorff y Myfyrwyr sy'n gwrthddweud eu daliadau crefyddol o gryn dipyn. Mae gan Brifysgol Caerdydd ac UMPC gyfrifoldeb o gynhwysiant tuag atynt, a phob grŵp crefyddol. Mae ymddygiad unigolion ar-lein ac oddi ar-lein, a'r awyrgylch ar y campws, wedi bod yn anoddefgar ac yn sarhaus ar brydiau.

Beth yw eich syniad?

Mae'n rhaid i Brifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr wneud ymrwymiad i fod yn weithredol wrth amddiffyn Rhyddid Crefyddol; yn enwedig y rhyddid o feddylfryd a mynegiant. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i fyfyrwyr allu siarad yn agored mewn gofod diogel heb orfod rhoi'r gorau i'r ddadl; na chael eu labelu gydag enwau a themau ensyniol. Rhaid i Brifysgol Caerdydd ac UMPC fod yn weithredol wrth hyrwyddo ag amddiffyn rhyddid crefyddol.

Submitted by: Luke Doherty

E) A ddylem lobio ar gyfer Cyllid Pensiwn USS i ddihatru?

Beth yw'r broblem?

Mae USS yn sefyll dros y Cynllun Ymddeol Prifysgolion (Universities Superannuation Scheme) ac mae'n un o gynlluniau pensiwn preifat blaenaf mwyaf ar gyfer prifysgolion a sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU. Ar hyn o bryd mae ganddo fuddsoddiadau amrywiol ar hyd amryw o sectorau gwahanol gan gynnwys tanwyddau ffosil, tybaco ac arfau. Ar hyn o bryd mae'r newidiadau a gynigir gan USS yn rhan o weithredu diwydiannol parhaus sy'n cael ei gymryd gan UCU gan fod y cynllun wedi dynodi gwerth ei hun mewn diffyg (diffygion yn nyfodol ei werth sydd eu hangen i dalu costau sydd ar y gweill)

Beth yw eich syniad?

Mae myfyrwyr wedi dod atom i ofyn ein bod yn lobio dros hyn. Dylai'r senedd gadw'r materion yn gyfartal a rhoi arweiniad i'r Swyddogion Sabothol os dylent lobio'r Brifysgol i wthio i'r cynllun i ddihatru, yn ogystal â gwthio'r Brifysgol ar amcanion 'Pedwar Brwydr' presennol gweithredu diwydiannol UCU yn yr hyn a all gael ei weld gennym ni fel cyfnod o wleidyddiaeth gymhleth. Rydw i'n ymwybodol nad yw 500 o nodau yn ddigonol, felly rydw i yn hapus i ddarparu nodyn briffio i seneddwyr.

Submitted by: Luke Doherty

### **Adran III Unrhyw fusnes arall ar gyfer 28/01/20:**

#### 1. Cynigion sy'n darfod

Does dim